







**CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN/A42 – PYSGOD
CARMARTHENSHIRE S42/BAP – FISH**

AMCANION CYFFREDINOL

- Rheoli cynefinoedd dŵr croyw mewn modd cadarnhaol yn Sir Gaerfyrddin, ansawdd y dŵr ynddynt a'r cynefinoedd torlannol/ymylol.
- Annog diddordeb yn yr amrywiaeth o bysgod a geir yn ein cynefinoedd dŵr croyw.
- Defnyddio rhywogaethau allweddol yn ffocws ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd/ag ysgolion.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r rhywogaethau hyn a'r materion sy'n effeithio arnynt.

ENW GWYDDONOL/ SCIENTIFIC NAME COMMON NAME/ ENW CYFFREDIN	FFOTO/ PHOTO	COFNODION SIR GAERFYRDDIN/ CARMS RECORDS	MATERION/PWYNTIAU GWEITHREDU ISSUES/ACTIONS
<p><i>Alosa alosa</i> Allis shad Herlyn</p> <p><i>Alosa fallax</i> Twaite shad Gwangen</p> <p>© Wye and Usk Foundation</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Mae poblogaeth sylweddol o wangenaiad yn silio ym mhen isaf Afon Tywi (un o lond dwrn o safleoedd yn unig ym Mhrydain), a defnyddir aber y 'Tair Afon' a Moryd y Burry yn gynefin meithrin. Anaml y byddant yn cyrraedd yn uwch na Llandeilo. • Mae herlyniad yn llawer mwy prin, ond mae tystiolaeth enetig bod cyfran uchel o'r rhai sydd yn afon Tywi yn gyfuniad o'r ddau fath. 	
<p><i>Anguilla anguilla</i> European eel Llysywen</p> <p>© Dave Mee</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Cyffredin mewn afonydd, llynnoedd a phyllau ledled y sir, ond yn llawer llai niferus nag yn y gorffennol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae angen monitro mwy ar llysywennod i'n helpu i ddeall eu dosbarthiad a'u cynefinoedd allweddol yn yr ardal yn well. • Mae coredau'n broblem allweddol ar gyfer llysywennod ifanc sy'n dychwelyd – mae cyflwyno bylchau ar eu cyfer yn helpu. • Mae falfiau clec ar nentydd arfordirol yn golygu bod angen bylchau llysywennod i'w helpu i fynd drwodd. Gosodwyd wyth bwllch ar afonydd yn y sir ers 2010 gan Asiantaeth yr Amgylchedd / Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae un arall wedi'i gynllunio ar gyfer 2014.
<p><i>Lampetra fluviatilis</i> River lamprey Llysywen bendoll yr afon</p> <p>Llysywennod pendoll yr afon yn troi'n 'fwy ariannaidd' yn barod i fynd i'r môr. River lampreys 'silvering up' ready to go to sea. © NRW.</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r rhai ifanc yn byw mewn gwaddodion am sawl blwyddyn. Mae'r rhai llawn dwf yn bwydo ar bysgod bach mewn aberoedd a dyfroedd mewndirol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Coredau a morgloddiau yw'r brif broblem. Hefyd gall ansawdd gwael i'r dŵr a gwaith peirianeg ar afonydd ladd y rhai ifanc neu beri bod eu cynefin yn cael ei golli.
<p><i>Petromyzon marinus</i> Sea lamprey Llysywen bendoll y Môr</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Mae mwy na 2500 o'r llysywennod trawiadol hyn yn esgyn ar hyd afon Tywi rai blynyddoedd, gan gyrraedd cyn belled â Llanymddyfri ar y brif afon a Llanymddyfri Brân a Phumsaint ar afon Cothi. Fodd bynnag, mae'r niferoedd yn amrywiol iawn. Mae'r rhai ifanc yn byw wedi'u claddu mewn gwaddodion am 3 blynedd cyn mudo i'r môr, lle maent yn bwydo'n barasitaidd ar bysgod mawr. 	<ul style="list-style-type: none"> • Coredau a morgloddiau yw'r brif broblem. Hefyd gall ansawdd gwael i'r dŵr a gwaith peirianeg ar afonydd ladd y rhai ifanc neu beri bod eu cynefin yn cael ei golli. Fodd bynnag, credir bod y boblogaeth llysywennod pendoll y môr a geir yn afon Tywi yn iach.

ENW GWYDDONOL/ SCIENTIFIC NAME COMMON NAME/ ENW CYFFREDIN	FFOTO/ PHOTO	COFNODION SIR GAERFYRDDIN/ CARMS RECORDS	MATERION/PWYNTIAU GWEITHREDU ISSUES/ACTIONS
<p><i>Salmo salar</i> Atlantic salmon Eog</p> <p>© Dave Mee</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Er bod eu niferoedd wedi lleihau, maent yn dal yn gyffredin yn holl afonydd Sir Gaerfyrddin. 	<ul style="list-style-type: none"> • Y prif fygythiadau i'r eog a'r brithyll mewn afonydd yw ansawdd gwael y dŵr a difrod i gynefinoedd yn sgil gorbori ar y glannau, gan achosi gorgynhesu, siltio a dileu cuddfannau. Gall rheolaeth wael ar blaleiddiaid, gan gynnwys gollyngiadau, ladd yr anifeiliaid di-asgwrn cefn y mae'r pysgod hyn yn eu bwyta. Mae colli mynediad i gynefinoedd silio yn sgil argaeau a morgloddiau hefyd yn broblem, ac mewn ardaloedd ucheldir, mae asideiddio yn dal i roi'r sefyllfa o dan bwysau. Gall gweithio mewn partneriaeth â thirfeddianwyr, yn arbennig y sectorau ffermio a choedwigaeth, helpu i adfer cynefin afonydd.
<p><i>Salmo trutta</i> Brown/sea trout Brithyll / Sewin</p> <p>© Dave Mee</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Mae brithyll i'w canfod fwy neu lai ym mhob afon lân yn y sir, ac eithrio uwchben rhwystrau naturiol sy'n eu hatal rhag mudo. Mewn gwirionedd, ffurfiau gwahanol o'r un rhywogaeth yw brithyll a sewin. Mae'r gwrywod yn tueddu i aros yn yr afonydd a pharhau'n frithyll, tra bod y benywod yn tueddu i anelu am y môr os bydd modd. Er bod y daith yn beryglus, gall sewin dyfu'n llawer mwy a chynhyrchu llawer mwy o wyau. Fodd bynnag, mae hyd yn oed y brithyll yn mudo i fyny ac i lawr yr afon er mwyn chwilio am safleoedd bwydo gwell. Mae afon Tywi'n enwog am ei sewin mawr. 	<p>Y prif fygythiadau i'r eog a'r brithyll mewn afonydd yw ansawdd gwael y dŵr a difrod i gynefinoedd yn sgil gorbori ar y glannau, gan achosi gorgynhesu, siltio a dileu cuddfannau. Gall rheolaeth wael ar blaleiddiaid, gan gynnwys gollyngiadau, ladd yr anifeiliaid di-asgwrn cefn y mae'r pysgod hyn yn eu bwyta. Mae colli mynediad i gynefinoedd silio yn sgil argaeau a morgloddiau hefyd yn broblem, ac mewn ardaloedd ucheldir, mae asideiddio yn dal i roi'r sefyllfa o dan bwysau.</p>